

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 17 Ionawr 2017 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iestyn Harris	Daniel Williams	
Nerys John	Casi Roberts	
George Smith	Sarah Riley	
Aled Emyr	Gruff John	
Mair Bebb Jones		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
1.1	Croesawyd yr aelodau gan Gadeirydd i gyfarfod mis Ionawr. Ymddiheuriadau: Peter Simpson, Miss Ashley. Dywedodd y Cadeirydd hoffai longyfarch Wŷl y Felin ar ddigwyddiadau tymor y Nadolig a hefyd trefnwyr y plygain yn Eglwys Llanfariisgaer. Dangoswyd parch at farwolaeth y diweddar Bruce Palmer drwy funud o dawelwch.	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD	
	Dywedodd y Cynghorydd ei fod yn gweithio gydag adain Gofal Stryd Cyngor Gwynedd ar gynhyrchu posteri baw ci gyda blynyddoedd olaf yr ysgol gynradd. Os oes problemau baw ci mewn ardaloedd o'r pentref mae croeso i bobl anfon neges. Mae trefniadau newydd ar gyfer maes parcio'r ysgol. O Ionawr 17 dim ond cerbydau'r athrawon bydd yn cael mynedfa tra bod asesiad risg yn cael ei wneud. Llwybr Afon Heulyn - gwaith cynnal o'r wal o dan y llwybr angen ei wneud ond nid oes modd gwneud y gwaith nes mis Mai, mae oddeutu tair wythnos o waith. Mae wedi derbyn ychydig o sylwadau ynglŷn â'r mesur cyfyngiad parcio dwy awr a'r stryd Bangor.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	COFNODION	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion 13 o Ragfyr 2016. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir wedi fan newidiadau i eitemau 5.3, 5.8 a 5.9 ac yna e'u harwyddo.	
5.0	MATERION YN CODI	
5.1	Hysbysfyrddau Bydd hysbysfwrdd Lan y Môr yn cael ei godi'r penwythnos yma; rydym yn dal i ddisgwyl ymateb Gareth Gleaver ar gyfer lleoliad i'r un yn y Doc.	
5.2	Toiledau - dim datblygiad wedi bod ar y mater.	
5.3	Biniau Halen cafwyd gwybodaeth bod bin preifat ar gyfer Penybryn. Bydd Aled Emyr yn rhoi'r wybodaeth i drigolion newydd Penybryn. Penderfynwyd a'r eirfa posteri i'w rhoi ar y	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>biniau. Cynghorydd Sarah Riley i drefnu cael printio'r rhain. Trafodwyd hefyd i gael poster ar finiau sbwriel Lan y Môr i nodi nad ydynt ar gyfer sbwriel cartref ac os yw Cyngor Gwynedd yn cytuno I archebu y ddau boster yr un pryd.</p>	
5.4	<p>MSFOMA - rhoddwyd eglurhad o'r cyfarfod diwethaf can y Cadeirydd. O'r cyfarfod cafwyd wybod nad oedd y Cynghorydd Ioan Thomas yn edrych ar ôl buddiannau busnesau ar hyd y fenai ond yn hytrach yn gynrychiolydd Cyngor Gwynedd. Bydd y Cyfarfod nesaf yn niwedd mis Mawrth.</p>	
5.5	<p>Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru a'r Gydabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2017 - cafwyd penderfyniadau'r Cyngor Cymuned i dderbyn y penderfyniadau isod yr adroddiad.</p> <p>46 - Peidio â defnyddio'r hawl i dalu i aelodau'r cyngor.</p> <p>47 - Peidio â defnyddio'r hawl i dalu i dri chynghorydd a swyddogaeth arbennig.</p> <p>48 - Ddim yn gymwys</p> <p>49 - Derbyn manylion ad-dalu costau teithio.</p> <p>50 - Derbyn manylion ad-dalu costau aros 51 - 51 Derbyn hawl i wneud taliadau.</p> <p>Gweler yr atodiad.</p>	
6.0	<p>ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD</p>	
6.1	<p>Bydd yr adeiladwr yn dechrau gwneud i ffwrdd a'r simdde'r wythnos yma. Mae'r adeiladwr hefyd am gael gwybodaeth ynglŷn â chyfarpar i baentio adeilad I warchod rhag gwlybanaeth. Fe ddaeth rhywfaint o blaster i lawr oddi ar y proscenium arch - gobeithir derbyn pris am wneud y gwaith yn fuan. Mae trafodaethau am y tamprwydd yn parhau.</p>	
7.0	<p>CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD</p>	
7.1	<p>Cadarnhawyd gwariant mis Rhagfyr a derbyn yr adroddiad misol.</p>	
7.2	<p>Cyflwynwyd y Cyllid Drafft gan y Swyddog Ariannol a derbyniwyd y Cyllid drafft ar gyfer 2017 - 2018.</p>	
7.3	<p>Trafodwyd mater y praesept a phenderfynwyd nad oedd lefel y praesept i'w godi am y flwyddyn ariannol 2017 - 2018. (£35,000)</p>	
7.4	<p>Cynllun Pensiwn - dywedodd y Cynghorydd Iestyn Harris bod gan unrhyw weithiwr hawl i ofyn am gynllun pensiwn ond nid oes hawl am ofyn am gyfraniad. Y Trothwy ar gyfer talu cyfraniad yw £4,800. Bydd Is-bwyllgor cyflogaeth yn edrych yn fanwl ar y rheolau er mwyn bod yn glir a'r gofynion.</p>	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

8.0	GOHEBIAETH	
8.1	Plannu Coed - Cafwyd eglurhad gan y Cynghorydd Nerys John bod modd cael plannu coed ar ardaloedd gwyrdd o fewn y Gymuned. Trafodwyd y mater.	
8.2	Arian Heli'r Heulyn - dywedodd y Cynghorydd Nerys John bod y Gymdeithas wedi dod i ben a bod yr arian sydd ar ôl angen cael ei drosglwyddo. Yn unol â chyfansoddiad y Gymdeithas byddai angen defnyddio'r arian ar gyfer hybu diwylliant llenyddol Cymreig. Roedd modd iddo gael ei gadw yng nghoffrau'r Cyngor Cymuned er mwyn ei reoli i'r pwrpas hyn.	
9.0	ADRODDIAD COFEB Y CLOC	
	Peter Wray wedi arbrofi gyda "defusers" golau o fewn y cloc ac mae'r rhain yn sicrhau nad oes cysgodion ar wynebau'r cloc. Gobeithir cwblhau gosod y diffusers yn fuan.	
10.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
10.1	C16/1583/20/LL - codi decin a chanllaw pren yn ardd gefn yr eiddo - 2 Menai Court, Y Felinheli, LL56 4RZ - DIM GWRTHWYNEBIAD	
10.2	C16/1620/20/LL - ymestyn estyniad deulawr a gosod estyniad gromen ar gefn yr eiddo - 20 Bangor Street, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JD - Dim sylwadau ond pryder ynglŷn â cholli safle parcio.	
10.3	C17/0028/20/AM - cais amlinellol i godi tŷ newydd - Fron Helig, 42 Bryn Ffynnon, Y Felinheli, LL56 4SJ - Y GWRTHWYNEBIADAU BLAENOROL YN PARHAU.	
11.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT	
11.1	Dim adroddiad.	
12.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
12.1	Dim adroddiad	
13.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU BYSIAU A MEINCIAU	
13.1	Dim adroddiad. Y Cyngor wedi trafod Llwybr Heulyn o dan adroddiad y Cynghorydd	
14.0	CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL	
14.1	Dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn ynglŷn â phrosiect risg arfordirol. Y Swyddog yn ôl yn ei waith.	
15.0	GWEFAN	
	Angen trefnu cyfarfod ynglŷn â'r gwaith drafft hyd yma.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:30	
Llofnod:		Dyddiad:

ATODIAD/APPENDIX

EITEM/ITEM 5.5

Penderfyniad 46: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i ddarparu lwfans dinesig i faer/cadeirydd y cyngor, sef swm sy'n briodol yn eu tyb hwy i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau os caiff ei wneud

Determination 46: Community and town councils are authorised to provide a civic allowance to the mayor/chair of the council at an amount that they deem appropriate to undertake the functions of that office. This is in addition to the £150 payment for costs and expenses if that is made

Penderfyniad 47: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i ddarparu lwfans dinesig i ddirprwy faer/gadeirydd y cyngor, sef swm sy'n briodol yn eu tyb hwy i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau os caiff ei wneud

Determination 47: Community and town councils are authorised to provide a civic allowance to the deputy mayor/deputy chair of the council at an amount that they deem appropriate to undertake the functions of that office. This is in addition to the £150 payment for costs and expenses if that is made

Penderfyniad 48: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy. ⁵ Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y nodir isod:

- 45c y filltir - hyd at 10,000 o filltiroedd yn y flwyddyn.**
- 25c y filltir - dros 10,000 o filltiroedd.**
- 5c y filltir y teithiwr a gludir ar fusnes yr awdurdod.**
- 24c y filltir – beiciau modur preifat.**
- 20c y filltir – beiciau**

Determination 48: Community and town councils are authorised to make payments to each of their members in respect of travel costs for attending approved duties. ⁶ Such payments must be the actual costs of travel by public transport or the HMRC mileage allowances as below:

- 45p per mile up to 10,000 miles in the year.*
- 25p per mile over 10,000 miles.*
- 5p per mile per passenger carried on authority business.*
- 24p per mile for private motor cycles.*
- 20p per mile for bicycles.*

Penderfyniad 49: Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau yn ôl y cyfraddau uchaf a nodir isod, ar sail hawliadau gyda derbynebaw:

- Iwfans o £28 y cyfnod o 24 awr ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brechwast pan na fydd wedi'i gynnwys.**
- £200 – Llundain dros nos.**
- £95 – rhywle arall dros nos.**

£30 – aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos.

Determination 49: If a community or town council resolves that a particular duty requires an overnight stay, it may authorise reimbursement of subsistence expenses to its members at the maximum rates set out below on the basis of receipted claims:

- £28 per 24-hour period allowance for meals, including breakfast where not provided.
- £200 – London overnight.
- £95 – elsewhere overnight.
- £30 – staying with friends and/or family overnight.

Penderfyniad 50: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i dalu iawndal am golled ariannol i bob un o’u haelodau, lle mae colled o’r fath wedi cael ei hysgwyddo mewn gwirionedd, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:

Hyd at £33.00 am bob cyfnod nad yw’n fwy na 4 awr:

Hyd at £66.00 am bob cyfnod sy’n fwy na 4 awr ond nad yw’n fwy na 24 awr.

Determination 50: Community and town councils are authorised to pay financial loss compensation to each of their members, where such loss has actually occurred, for attending approved duties as follows:

- Up to £33.00 for each period not exceeding 4 hours:
- Up to £66.00 for each period exceeding 4 hours but not exceeding 24 hours.

Penderfyniad 51: Mae gan gynghorau tref a chymuned yr awdurdod i ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y gofalwr y dylid ad-dalu’r costau.

Determination 51: Community and town councils are authorised to provide for the reimbursement of necessary costs for the care of dependent children and adults (provided by informal or formal carers) and for personal assistance needs up to a maximum of £403 per month. Reimbursement shall only be made on production of receipts from the carer.